Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn addysg uwch 2023/24

## - canllaw i etholwyr

Awst 2023




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7373**
E-bost: **Lucy.Morgan@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn addysg uwch 2023/24

## - canllaw i etholwyr

Awst 2023

**Awduron:**
Rosemary Hill a Lucy Morgan

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Newidiadau ers mis Medi 2018 ..... 2**

**3. Meini prawf cymhwysedd ..... 3**

Lle rydych yn byw ..... 3

Myfyrwyr rhyngwladol ..... 3

Eich cwrs ..... 4

Eich prifysgol neu eich coleg ..... 4

Oedran ..... 5

Astudiaethau blaenorol ..... 5

**4. Cyrsiau amser llawn: help gyda ffioedd dysgu ..... 6**

Prifysgolion a cholegau cyffredin a phreifat ..... 6

Symiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu ..... 6

Bwrsariaeth y GIG ..... 7

Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol ..... 8

**5. Cyrsiau amser llawn: help gyda chostau byw ..... 9**

Grantiau a benthyciadau cynhaliaeth ..... 9

Trefniadau yng Nghymru i ganslo rhan o'r Benthyciad Cynhaliaeth ..... 10

**6. Help os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser ..... 11**

Ffioedd dysgu ..... 11

Costau byw ..... 12

**7. Rhagor o gymorth ariannol ..... 13**

Grantiau dibynyddion ..... 13

Grant gofal plant ..... 13

Lwfans Dysgu i Rieni ..... 14

Grant oedolion dibynnol ..... 14

Lwfansau i fyfyrwyr anabl ..... 14

Grant teithio ..... 14

Cronfeydd prifysgolion a sefydliadau ..... 15

Dawns, drama a cherdd ..... 15

Cyrsiau cyfrwng Cymraeg ..... 16

# 1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am gymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n bwriadu astudio cwrs addysg uwch israddedig amser llawn neu ran-amser yn 2023/24. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.

Gall cymorth ariannol myfyrwyr helpu gyda ffioedd dysgu a chostau byw.

Mae **Cyllid Myfyrwyr Cymru** yn asesu eich cymhwysedd am gyllid, ac mae'r **Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwy**r gwneud taliadau ar ffurf grantiau neu fenthyciadau i chi (ar gyfer costau byw) neu i'ch darparwr (ar gyfer ffioedd dysgu).

**Os gwnaethoch ddechrau astudio cyn mis Medi 2018, dylech edrych ar ganllawiau blaenorol neu gysylltu â Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Mae'r rheolau ynghylch cymorth ariannol myfyrwyr yn gymhleth, ac mae llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld bod yr ymadrodd 'fel arfer' yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y canllaw hwn. Y rheswm am hyn yw mai canllaw cyffredinol yw'r ddogfen hon, ac nid yw'n cwmpasu pob posibilrwydd o ran amgylchiadau neu hawliau.

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael pob math o gymorth yn y canllaw hwn, neu'r uchafsymiau a ddangosir, gan ddibynnu ar amgylchiadau eich aelwyd a'ch man astudio.

*Ymwadiad: Gofynnir i Ymchwil y Senedd yn rheolaidd am gyllid myfyrwyr ac mae'r hysbysiad hwylus hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.*

# 2. Newidiadau ers mis Medi 2018

Fel myfyriwr newydd ym mis Medi 2023, byddwch yn un o fyfyrwyr y chweched flwyddyn i ddechrau ar y pecyn cymorth myfyrwyr israddedig presennol. Bydd y myfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs cyn mis Medi 2018 ar yr hen becyn o hyd.

Mae'r **pwyslais ym mhecyn 2018 wedi newid i ganolbwyntio ar helpu myfyrwyr gyda'u costau byw** gan y dangoswyd mai hwn oedd y rhwystr mwyaf i astudio yn yr **Adolygiad o gyllido addysg uwch a threfniadau cyllido myfyrwyr yng Nghymru** o 2016 (Adroddiad Diamond).

O dan y system bresennol, nid yw incwm aelwyd myfyriwr yn effeithio ar faint o arian mae'n ei gael, ond mae'n penderfynu ar y cydbwysedd rhwng y benthyciad cynhaliaeth a'r grant y gallant ei gael.

Mae cymorth ar gael o hyd i helpu gyda ffioedd dysgu ar ffurf benthyciad y mae'n rhaid ei ad-dalu.

Os gwnaethoch ddechrau eich cwrs **cyn mis Medi 2018**, mae gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ganllawiau ar wahân i chi. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth i fyfyrwyr **amser llawn a rhan-amser**.

# 3. Meini prawf cymhwysedd

Mae'r **rheolau'n ymwneud â chymhwysedd yn gymhleth**. Canllaw cyffredinol yn unig yw hwn felly nid yw'n cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau posibl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cymhwysedd, dylech gysylltu â **Cyllid Myfyrwyr Cymru** yn uniongyrchol.

Yn gyffredinol, mae cymhwysedd yn dibynnu ar ffactorau fel:

- lle rydych yn byw (eich statws cenedligrwydd a phreswyliaeth);
- eich cwrs;
- eich prifysgol neu eich coleg;
- eich oedran;
- eich astudiaethau blaenorol.

## Lle rydych yn byw

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys, mae angen i chi fod:

- yn wladolyn y DU neu fod â statws preswylydd sefydlog;
- yn byw yng Nghymru fel arfer;
- wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Os na fyddwch yn bodloni'r tri amod hwn, efallai eich bod yn dal i fod yn gymwys i wneud cais am gymorth, er enghraifft:

- os ydych yn wladolyn yr UE a gyda 'statws preswylydd sefydlog';
- yn ffoadur; neu
- o dan ddiogelwch dyngarol.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **gwybodaeth am feini prawf cymhwysedd** yn seiliedig ar genedligrwydd a phreswyliad, ac mae ganddo hefyd wybodaeth benodol ar gyfer **myfyrwyr o'r UE**.

### Myfyrwyr rhyngwladol

Sylwch na ddylai unrhyw beth yn y canllaw hwn gael ei ystyried yn gyngor ar fewnfudo. Mae cyngor ar fewnfudo **wedi'i reoleiddio'n llym** a dim ond cynghorwyr sydd **wedi'u cofrestru** neu gorff proffesiynol cymeradwy sy'n gallu ei gynnig.

Yn aml, mae gan ddarparwyr addysg uwch swyddfa ryngwladol, a all helpu gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych am eich amgylchiadau penodol.

Hefyd o ddiddordeb efallai - mae Cyngor y DU dros Faterion Myfyrwyr Rhyngwladol (**UKCISA**) yn cyhoeddi gwybodaeth am **statws myfyrwyr cartref ar gyfer Cymru**, ac mae ganddynt **fanylion cyswllt ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol** gyda chwestiynau am eu cymhwysedd i gael cymorth.

## Eich cwrs

Rhaid i'ch cwrs fod wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'r cyrsiau cymwys yn cynnwys:

- gradd gyntaf;
- gradd sylfaen;
- Tystysgrif addysg uwch;
- Diploma addysg uwch;
- Tystysgrif Genedlaethol Uwch;
- Diplima Cenedlaethol Uwch;
- Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR);
- cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon.

## Eich prifysgol neu eich coleg

Mae'n rhaid i'ch darparwr naill ai:

- gael ei ariannu gan y Llywodraeth; neu
- gael ei ariannu'n breifat ond yn cynnal cyrsiau sydd wedi'u cymeradwyo i'w hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Yn gyffredinol, gallwch gael gafael ar gymorth ariannol i astudio mewn darparwyr "cyffredin", neu wedi'u hariannu gan y cyhoedd, yng **ngweddill y Deyrnas Unedig**.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru hefyd yn cyhoeddi **rhestr o gyrsiau mewn darparwyr preifat** sydd wedi'u cymeradwyo'n benodol ar gyfer cyllid myfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

Os nad ydych yn siŵr a yw eich cwrs yn gymwys i gael cymorth ariannol, cysylltwch â'ch prifysgol neu goleg.

## Oedran

Nid oes terfyn oedran er mwyn bod yn gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu, ond rhaid i chi fod o dan 60 oed i fod yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth.

## Astudiaethau blaenorol

Os oes gennych gymhwyster israddedig ac rydych yn ystyried dilyn cymhwyster ôl-raddedig, mae **pecyn cymorth arall ar gael i chi**.

Ceir rheolau cymhleth ar yr hyn y mae gennych hawl iddo os ydych yn ystyried dilyn cwrs sydd â lefel gyfatebol i un rydych wedi'i ddilyn eisoes, p'un a ydych wedi'i gwblhau ai peidio. Maent yn gymwys i gyrsiau amser llawn a rhan-amser.

Yn gyffredinol, mae gennych hawl i gymorth ar gyfer **pob blwyddyn o'ch cwrs**, ynghyd â blwyddyn arall. **Os ydych wedi dilyn cwrs o'r blaen, mae'n bosibl y caiff eich hawl ei lleihau yn ôl nifer y blynyddoedd rydych wedi astudio o'r blaen**. Mae hyn yn wir hyd yn oed os gwnaethoch ariannu eich cwrs blaenorol eich hun. Efallai y byddwch yn gallu cael blwyddyn ychwanegol o gyllid os bu'n rhaid i chi adael cwrs blaenorol oherwydd rhesymau personol cymhellol.

Hefyd, mae'n bosibl na fyddwch yn gymwys am gymorth os oes gennych radd eisoes. Serch hynny, mae eithriadau os hoffech astudio un o'r canlyol:

- meddygaeth;
- deintyddiaeth;
- pensaernïaeth;
- gofal cymdeithasol.

Os ydych eisoes wedi dilyn cwrs addysg uwch ar lefel israddedig, dylech siarad â Cyllid Myfyrwyr Cymru cyn gwneud penderfyniadau, i weld a ydych yn cael eich cynnwys fel eithriad.

# 4. Cyrsiau amser llawn: help gyda ffioedd dysgu

Mae faint o **fenthyciad ffioedd dysgu** y mae gennych hawl iddo yn dibynnu ar ble rydych am astudio. Nid yw'n destun prawf modd, sy'n golygu y gall unrhyw fyfyriwr cymwys gael y swm llawn.

## Prifysgolion a cholegau cyffredin a phreifat

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg arferol, neu a ariennir yn gyhoeddus, gallant godi hyd at **£9,000 y flwyddyn mewn ffioedd dysgu blynyddol yng Nghymru** (a £9,250 mewn rhannau eraill o'r DU).

Mae dau prif wahaniaeth os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat:

1. Nid oes **cyfyngiadau ar y ffioedd ddysgu** y gallant eu codi arnoch.
2. Mae **swm y benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael yn llai na phe baech yn mynd i brifysgol neu goleg cyhoeddus**. Mae hyn yn golygu, os byddant yn codi ffioedd sy'n fwy nag uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gallwch ei gael, **y bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth eich hunan**.

Yn olaf, pan fyddwch yn astudio gyda'r math hwn o ddarparwr, dim ond **os yw eich cwrs wedi'i gymeradwyo, neu ei 'ddynodi' gan Lywodraeth Cymru** y gallwch gael benthyciad ffioedd dysgu. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi rhestr o **gyrsiau sydd wedi'u dynodi ar gyfer cymorth**, felly rydym yn argymell **cysylltu â hwy** am ragor o wybodaeth.

## Symiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu

Telir y benthyciad ffioedd dysgu **yn uniongyrchol i'r sefydliad lle rydych yn astudio**. Mae rheolau cymhleth ynglŷn â faint y mae'n rhaid i chi ei dalu'n ôl os byddwch yn gadael eich cwrs cyn ei gwblhau. Dylech gadarnhau gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am hyn.

Mae'r tabl isod yn dangos **lefelau'r ffioedd dysgu a symiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu:**

| Math o ddarparwr | Uchafswm y gellir ei godi arnoch | Benthyciad ffioedd dusgy sydd ar gael i chi (nad yw'n destun prawf modd) |
|---|---|---|
| Yn astudio mewn prifysgol neu goleg cyffredin yng Nghymru | £9,000 | £9,000 |
| Yn astudio mewn prifysgol neu goleg gyffredin yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban | £9,250 | £9,250 |
| Yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat yn y DU ar gwrs sydd wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru | Dim cyfyngiadau ar yr hyn y gallant ei godi | £6,165 (os nad yw hyn yn talu'r ffi gyfan, mae'n rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth) |

## Bwrsariaeth y GIG

Os ydych yn dilyn cwrs a fydd yn arwain at gymhwyster mewn meddygaeth, deintyddiaeth neu ofal iechyd, mae'n bosibl y gallwch gael bwrsariaeth gan GIG Cymru. Mae Bwrsariaeth y GIG yn cael ei hasesu a thelir amdani gan **Gynllun Bwrsariaeth y GIG**, nid gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Yn dibynnu ar eich cwrs, efallai y bydd GIG Cymru hefyd yn delio'n uniongyrchol â ffioedd dysgu.

Os ydych yn gymwys am y fwrsariaeth GIG, efallai y gallwch gael Benthyciad Cynhaliaeth ostyngedig **hyd at £5,360 gan Cyllid Myfyrwyr Cymru** os ydych yn astudio cwrs a ariennir gan y GIG yng Nghymru.

Dylech gysylltu â **Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru** am ragor o wybodaeth.

## Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol

Os ydych yn dilyn cwrs gradd israddedig cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol, gallwch wneud cais am fwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**.

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, gallwch gysylltu â **Thîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau Gofal Cymdeithasol Cymru**.

# 5. Cyrsiau amser llawn: help gyda chostau byw

Mae help gyda chostau byw yn fwy cymhleth na Benthyciadau Ffioedd Dysgu. Mae incwm eich aelwyd yn cael ei ystyried, ond dim ond i benderfynu ar y rhaniad rhwng y benthyciad cynhaliaeth a'r benthyciad i'w ad-dalu – nid ar gyfer penderfynu ar yr uchafswm y gallwch ei gael.

## Grantiau a benthyciadau cynhaliaeth

Mae **cydbwysedd y grant a'r benthyciad** rydych yn eu cael ar gyfer costau byw yn seiliedig ar incwm eich aelwyd, lle byddwch yn astudio a lle byddwch yn byw. Gall y rhan fwyaf o fyfyrwyr **gael grant am o leiaf £1,000**, nad oes rhaid i chi ei dalu'n ôl.

Mae gweddill eich cymorth costau byw yn dod o'r benthyciad cynhaliaeth. Gallwch gael help ychwanegol mewn amgylchiadau penodol, megis os oes gennych ddibynyddion. Esbonnir hyn yn ddiweddarach yn y canllaw.

Bydd swm blynyddol cyffredinol y cyllid y gallwch ei gael yn gymysgedd o grant cynhaliaeth, ynghyd â'r benthyciad cynhaliaeth os hoffech ei gael. Caiff hyn ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc ar ddechrau pob tymor, ond dim ond ar ôl i chi gofrestru ar gyfer eich cwrs ac ar ôl i'ch darparwr gadarnhau eich presenoldeb.

Y benthyciad a'r grant cyfunol uchaf y byddwch yn ei gael yn **2023/24** yw:

- £9,950 os ydych yn byw gyda›ch rhieni;
- £11,720 os ydych yn byw i ffwrdd o gartref eich rhieni ac yn astudio yn rhywle y tu allan i Lundain;
- £14,635 os ydych yn byw i ffwrdd o gartref eich rhieni ac yn astudio yn Llundain.

Mae'r balans rhwng y grant a'r benthyciad sy'n gwneud y cyfansymiau hyn yn dibynnu ar incwm eich cartref. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **tablau gydag amcangyfrifon o faint o fenthyciad a grant y gallech ei gael.**

Nodwch, hyd yn oed os oes gennych yr incwm aelwyd isaf, sef £18,370 neu lai, bydd arnoch angen Benthyciad Cynhaliaeth bach er mwyn i chi gael uchafswm eich hawl. Yn yr un modd, os oes gennych yr incwm aelwyd uchaf, sef £59,200 neu fwy, gallwch gael o leiaf £1,000 o grant.

**Codir llog arnoch ar gyfer eich benthyciadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu** o'r diwrnod cyntaf y telir yr arian i'ch cyfrif banc nes i'r benthyciad gael ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo.

## Trefniadau yng Nghymru i ganslo rhan o'r Benthyciad Cynhaliaeth

Os ydych chi wedi cymryd Benthyciad Cynhaliaeth ar gyfer cwrs israddedig amser llawn ers blwyddyn academaidd 2010/11, gallai Llywodraeth Cymru ganslo hyd at £1,500 o'ch dyled. Mae hyn yn cael ei gymhwyso yn fuan ar ôl i ad-daliad cyntaf y benthyciad gael ei wneud, ac fe'i dangosir fel arfer ar y datganiad benthyciadau myfyrwyr nesaf.

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn cyfrifo faint fydd yn cael ei ddidynnu o'ch benthyciad. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **cyngor Llywodraeth Cymru ar y polisi dileu rhannol**.

# 6. Help os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser

Ar gyfer cyrsiau israddedig rhan-amser, mae'r pecyn cymorth cynhaliaeth yn fersiwn pro rata o'r pecyn amser llawn uchod. Gall myfyrwyr cymwys gael swm penodol o fenthyciad ffioedd dysgu.

Ar gyfer **costau cynhaliaeth**, yn debyg i gwrs amser llawn, gall myfyrwyr gael cyfuniad o grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth. Bydd swm y grant a'r benthyciad rydych chi'n ei gael yn dibynnu ar incwm eich aelwyd a dwysedd eich cwrs.

Ystyr **dwysedd y cwrs** yw canran yr amser rydych yn astudio o'i gymharu â chwrs amser llawn. Dwysedd cwrs amser llawn yw 100 y cant. Gall dwysedd cyrsiau rhan-amser fod yn 25, 50 neu 75 y cant.

Rhaid i chi fod yn astudio ar ddwysedd cwrs o 25% o leiaf i gael grant rhan-amser a benthyciad ar gyfer costau byw ac i wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu rhan-amser. Rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru wneud cais am gymorth rhan-amser, waeth beth yw'r dwysedd astudio.

## Ffioedd dysgu

Fel cyrsiau amser llawn, mae uchafswm Benthyciad Ffioedd Dysgu y gallwch ei gael. Mae uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr yn 2023/24 wedi'i nodi yn y tabl isod:

| Lleoliad astudio | Benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael yn 2023/24 |
|---|---|
| Prifysgol neu goleg yng Nghymru, neu'n astudio yn y Brifysgol Agored | £2,625 |
| Prifysgol neu goleg cyhoeddus tu allan i Gymru | £6,935 |
| Prifysgol neu goleg preifat tu allan i Gymru | £4,625 |

Ffynhonnell: **Cyllid Myfyrwyr Cymru**

## Costau byw

Yn debyg i fyfyrwyr amser llawn, gallwch gael help gyda'ch costau byw ar ffurf grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau fesul blwyddyn gyda'r rhaniad rhwng grant a benthyciad yn seiliedig ar incwm eich aelwyd.

I fyfyrwyr rhan-amser, mae cyfanswm y cyllid y gallwch ei gael yn dibynnu ar ddwysedd eich cwrs. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **tablau gydag enghreifftiau dangosiadol o swm y benthyciad a'r grant** y gallech ei gael, sy'n amrywio yn ôl dwysedd eich cwrs ac incwm eich cartref.

# 7. Rhagor o gymorth ariannol

Mae **grantiau ychwanegol** ar gael i'ch helpu os oes gennych amgylchiadau penodol sy'n golygu bod arnoch angen cymorth ychwanegol. Mae'r cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser yn wahanol.

**Mae'r rhain oll ar ben unrhyw hawl i fenthyciad ffioedd dysgu a benthyciadau a grantiau cynhaliaeth.**

## Grantiau dibynyddion

Mae'r rhain ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant dibynnol neu oedolion dibynnol. Maent ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, gan ddibynnu ar ddwysedd y cwrs.

### Grant gofal plant

Mae hwn ar gael i fyfyrwyr i'w helpu i dalu **costau gofal plant** cymeradwy neu gofrestredig mewn perthynas â phlant dan 15 oed, neu blant dan 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig.

Yn 2023/24, gall y grant dalu am hyd at 85 y cant o'ch costau gofal plant, hyd at £187 yr wythnos ar gyfer un plentyn neu hyd at £321 yr wythnos ar gyfer dau neu ragor o blant. Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser, bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar ddwysedd eich cwrs.

Ni fyddwch yn gymwys i gael y grant hwn os ydych chi neu'ch partner yn hawlio'r canlynol:

- Yr elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol;
- gofal plant di-dreth gan Cyllid a Thollau EM; neu
- grantiau gofal plant a ariennir gan y GIG.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr **amser llawn** a **rhan-amser**.

Os ydych chi'n rhiant i blentyn rhwng 3 a 4 oed, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth gofal plant pellach gan Lywodraeth Cymru o dan y **Cynnig Gofal Plant,** sydd bellach yn cynnwys myfyrwyr sy'n rhieni.

### Lwfans Dysgu i Rieni

Diben hyn yw helpu myfyrwyr sydd â phlant dibynnol a'ch helpu i dalu unrhyw gostau ychwanegol sy'n ymwneud â'ch cwrs. Mae'n bosibl y gall myfyrwyr amser llawn gael hyd at £1,896.

Mae'r swm y gall myfyrwyr rhan-amser ei gael yn seiliedig ar ddwysedd eich cwrs.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr **amser llawn** a **rhan-amser**.

### Grant oedolion dibynnol

Diben hyn yw helpu myfyrwyr sydd ag aelod o'r teulu sy'n oedolyn y maent yn ei gefnogi'n ariannol. Ni all eu hincwm fod yn fwy na £3,923 y flwyddyn.

Yr uchafswm sydd ar gael yw **£3,322 y flwyddyn i fyfyrwyr amser llawn**. Mae'r uchafswm y gall myfyrwyr rhan-amser ei gael yn dibynnu ar ddwysedd eich cwrs.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr **amser llawn** a **rhan-amser**.

## Lwfansau i fyfyrwyr anabl

Mae **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** yn ffynhonnell arall o gyllid sydd ar gael i fyfyrwyr sydd ag anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu.

Nid yw'r lwfans yn dibynnu ar incwm eich aelwyd. Yn 2023/24, gall myfyrwyr amser llawn a rhan-amser gael hyd at £33,146 y flwyddyn ar gyfer cymorth. Gellir defnyddio hwn i dalu costau offer arbenigol, cynorthwyydd anfeddygol, a chostau mwy cyffredinol sydd gennych.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i **fyfyrwyr amser llawn** a **rhan-amser**, gan gynnwys sut i wneud cais am y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.

## Grant teithio

Os ydych yn mynd i leoliad clinigol yn y DU neu'n astudio dramor fel rhan o'ch cwrs, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael **grant i'ch helpu i dalu costau teithio**.

Gall y grant teithio helpu i dalu costau sy'n ymwneud â theithio i leoliad yr

hyfforddiant clinigol yn y DU, neu'r wlad y bydd yn rhaid i chi deithio iddi os byddwch yn astudio dramor.

Disgwylir i chi dalu'r £303 cyntaf o gostau teithio eich hunan os yw incwm eich aelwyd yn is na £59,200. Disgwylir i chi dalu'r £1,000 cyntaf o gostau teithio eich hunan os yw incwm eich aelwyd yn £59,200 neu fwy.

## Cymorth arbennig

Mae'r **grant cymorth arbennig** ar gyfer myfyrwyr sy'n cael budd-daliadau penodol yn ymwneud ag incwm, a'i ddiben yw helpu gyda'r gost o brynu llyfrau ac offer ar gyfer eu cyrsiau a chostau teithio.

## Cronfeydd prifysgolion a sefydliadau

Mae holl brifysgolion Cymru (a'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill y DU) yn cynnig rhyw fath o gymorth ariannol dewisol. Mae'r cynlluniau hyn yn defnyddio enwau gwahanol, ond maent yn cynnwys cronfeydd caledi, bwrsariaethau neu ysgoloriaethau.

Maent at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys gwobrwyo rhagoriaeth academaidd neu ragoriaeth arall a chefnogi myfyrwyr gyda chostau byw neu drafferthion ariannol. Efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am rai cyn i chi ddechrau, a dim ond ar ôl i chi ddechrau eich astudiaethau y mae eraill ar gael. Mae rhai yn grantiau ac mae'n rhaid ad-dalu rhai eraill.

Bydd meini prawf cymhwysedd a rheolau eraill yn dibynnu ar y sefydliad unigol sy'n cynnig unrhyw gynllun o'r fath. Dylech gysylltu â'ch darparwr yn uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth ac i weld pa gymorth neu ddyfarniadau sydd ar gael.

Gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hyn cyn i chi ddechrau eich cwrs oherwydd efallai bod cymorth ychwanegol y gallech ei gael yn ystod eich blwyddyn gyntaf.

## Dawns, drama a cherdd

Mae'r cynllun DaDA (Dyfarniadau Dawns a Drama) yn cynnig cymorth yn seiliedig ar asesiad incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn rhai sefydliadau dawns a drama preifat yn Lloegr.

Mae cynllun DaDA ar gyfer myfyrwyr rhwng 16 a 23 oed, sy'n dangos talent a thebygolrwydd o lwyddo yn y diwydiant. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael ar **wefan Llywodraeth y DU**.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Celfyddydau Ieuenctid Genedlaethol yn darparu bwrsariaethau** hyd at £1,000 ar gyfer dawns, drama a cherdd i bobl ifanc 12-25 oed. Er mwyn bod yn gymwys i gael bwrsariaeth rhaid i chi fodloni nifer o feini prawf, gan gynnwys bod yn ddinesydd y DU a gallu dangos dawn ac ymroddiad i wella'ch sgiliau. Ceir rhagor o **wybodaeth am gymhwysedd** a **sut i wneud cais** ar ei gwefan.

## Cyrsiau cyfrwng Cymraeg

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig nifer o **ysgoloriaethau** i fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf rhywfaint o'u cwrs prifysgol yn y Gymraeg. Cewch ragor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau a'r gofynion cymhwysedd ar eu **gwefan**.